Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB

**Addysg a Chymorth i Deuluoedd/Education and Family Support**

**Ein cyf / Our ref:** RD/FSMS01

**Dyddiad / Date:** 8 March 2021

Annwyl riant/gofalwr/disgybl

**Arolwg prydau ysgol am ddim**

Ar ddechrau pandemig COVID-19, penderfynodd yr awdurdod lleol mai'r ffordd orau o helpu disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim (eFSM) oedd drwy ddanfon parseli bwyd iddynt. Roedd y cynllun hwn wedi cyd-fynd â'r neges a gawsom gan Lywodraeth Cymru i 'aros gartref'

Ar ddechrau'r pandemig, cawsom rywfaint o anhawster cael gafael ar fwydydd sylfaenol fel bara a phasta, ac roedd tystiolaeth yn dangos bod teuluoedd yn teithio'n aml i siopau i brynu'r eitemau hyn. Wrth gynnwys bwydydd fel hyn ym mharseli bwyd eFSM yr awdurdod lleol, roedd llai o angen i deuluoedd, yn enwedig y rhai heb drafnidiaeth breifat, deithio'n aml i'r siopau lleol. Ar ben hyn, mae'r cardiau ryseitiau a gafodd eu cynnwys yn y parseli bwyd wedi helpu disgyblion i baratoi eu prydau eu hunain a dysgu 'sgiliau bywyd' pwysig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n ddiweddar i ymestyn y rhaglen prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol hyd at Ebrill 2022. Gan hynny, mae'r awdurdod lleol yn gofyn i chi roi'ch barn ar gynnwys y parseli bwyd presennol. Mae arolwg ar-lein yn fyw'n awr a bydd yn cau ar 26 Mawrth 2021. Dilynwch y dolenni isod.

Parents/carers survey
Children and young people survey

Gofynnwn i rieni/gofalwyr a disgyblion ymateb. Ddylai'r arolwg ddim cymryd mwy na rhyw bum munud i'w lenwi a bydd eich ymatebion yn helpu'r awdurdod lleol i benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys yn y dyfodol.

Gyda diolch am eich cefnogaeth parhaus.

L I Harvey

**Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)**

**Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Ffôn/Tel: 01656 643643** **Facs/Fax: 01656 668126** **Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk**
**Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014** **Twitter@bridgendCBC** **Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk**
**Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun**
**Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service**
**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.**
**We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.**